**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 06**
**Ymateb gan: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**Response from: Older People's Commissioner for Wales**

## Rhagarweiniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i'ch ymholiad am y Mesur Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r egwyddorion cyffredin y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael ei sefydlu o danynt.

Mae 866,006 o bobl dros 60 oed yn byw yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd y nifer yma'n codi i 956,000, neu 30% o'r boblogaeth, erbyn 2026 ac i 1,015,000 neu 31% erbyn 2031[i]. Rhaid sicrhau bod gan bobl hŷn gyfle i ddysgu, derbyn hyfforddiant ac ail-hyfforddiant ac i ddatblygu sgiliau newydd er mwyn gallu chwarae rhan lawn yn eu gwaith a'u cymunedau.

Cyn Covid-19, amcangyfrifwyd bod pobl 65+ oed yn cyfrannu dros £2.19bn i economi Cymru'n flynyddol[ii], gyda phobl dros 50 oed yn cyfrif am dros draean o'r gweithlu[iii]. Ni ddylid eithrio pobl hŷn wrth i Gymru ail-godi ei heconomi ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr allweddol hanfodol wrth i'n gwlad adfer yn economaidd o'r pandemig.

## Hyrwyddo dysgu gydol oes

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'n enwedig y ffocws yn Rhan 1 y Ddeddf ar hyrwyddo dysgu gydol oes. Mae'n hanfodol bwysig, fel y pwysleisiodd yr ymateb i ymgynghoriad blaenorol y Comisiynydd[iv], bod y Comisiwn newydd ar ôl ei sefydlu'n rhoi canlyniadau gwell i bobl hŷn.

Mae angen gwneud gwaith ar fyrder i adnabod anghenion penodol pobl hŷn mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant, sut i annog pobl hŷn i achub ar y cyfleoedd hyn a sicrhau bod ganddynt fynediad cyfartal a theg.

Nid yw'r model ymddeol traddodiadol mwyach yn berthnasol i lawer o bobl hŷn ac mae nifer gynyddol ohonynt eisiau, neu'n wir mae angen iddynt, weithio am hirach yn enwedig yn sgil y cynnydd mewn Oed Pensiwn Statudol. I wneud hyn mae mynediad at gyfleoedd dysgu a hyfforddi priodol yn hollbwysig. Rhagwelir y bydd effaith Covid-19 ar gyflogaeth gweithwyr hŷn yn sylweddol[v] a bydd llawer yn wynebu'r her o ddelio ag effeithiau emosiynol colli eu gwaith a hefyd â'r effaith andwyol y bydd hynny'n ei gael ar eu lles ariannol a chorfforol.

Mae'n bwysif sicrhau nad yw y cyfleoedd i ddysgwyr, ceiswyr gwaith a hyfforddeion hŷn yn cael eu heffeithio'n angheg gan y pandemig ac mae angen i bobl hŷn gael mynediad cyfartal at wasanaethau cymorth a chefnogaeth er mwyn rhoi hwb i'w rhagolygon dysgu a chyflogaeth.

Mae ceiswyr gwaith hŷn yn wynebu nifer o rwystrau wrth geisio ail-ymuno a'r gweithlu, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail oed, cyflogwyr nad ydynt yn cefnogi gweithleoedd o oedrannau amrywiol a gwahanol genedlaethau, arferion gwaith nad ydynt yn ddigon hyblyg i anghenion gofalwyr di-dal, yn ogystal â'r mythau a'r camsyniadau am weithwyr hŷn.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal**

Yn ymateb y Comisiynydd i'r ymgynghoriad 'Addysg Oedolion yng Nghymru – Ymgynghoriad ar ariannu a darparu strwythur ar gyfer addysg oedolion yng Nghymru' [vi], amlygwyd yn glir bod angen mynediad at ddysgu i bobl hŷn am lu o wahanol resymau. I rai, mae dysgu'n fater o ddysgu sgiliau ac ennill cymwysterau newydd i aros yn y gweithle neu ddychwelyd i'r gweithle. I eraill, yn enwedig rhai sydd wedi ymddeol, mae dysgu'n fater o ysgogi'r meddwl, sialensau newydd a chynnal cyswllt cymdeithasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae toriadau mawr wedi bod i'r cyllid ar gyfer addysg oedolion yn y gymuned sydd wedi amharu ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer pobl hŷn a'u hatal rhag derbyn gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd pwysig fel rheoli eu sefyllfa ariannol neu ddysgu technolegau digidol yn hyderus, problem oedd yn amlwg iawn yn ystod pandemig Covid-19.

Rhaid i'r Comisiwn newydd wella amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael i bobl hŷn gael ymgysylltu â dysgu'n ffurfiol ac anffurfiol ar draws gwahanol sectorau, yn ogystal â dangos ymrwymiad diffuant i ddull pob oed o ddarparu addysg.

Mae cau a chwtogi ar wasanaethau cymunedol a fu'n 'achubiaeth' o'r blaen, gan gynnwys cwtogi ar addysg oedolion gydol oes ac yn y gymuned, wedi cael effaith ddifrifol ar iechyd a lles rhai pobl hŷn gan gyfyngu ar gyfleoedd i gael cyswllt cymdeithasol yn y gymuned. I eraill, mae wedi effeithio ar eu rhagolygon gwaith drwy leihau eu cyfleoedd i ennill sgiliau newydd ac i fagu digon o hyder i ystyried llwybrau eraill yn ôl i weithio, er enghraifft drwy brentisiaethau pob oed neu hunangyflogaeth.

**Hyrwyddo cenhadaeth ddinesig**

Yn ystod y pandemig, gwelsom gryfder a photensial ein cymunedau gan ddod â phobl ar draws y gwahanol genedlaethau at ei gilydd i gefnogi a gwarchod ein pobl fwyaf bregus. Ni allwn fforddio â cholli'r ymdeimlad hwnnw o bwrpas a pherthyn. Mae addysg oedolion yn y gymuned yn chwarae rhan annatod yng ngwead bywyd y gymuned.

Yn 'Gadael neb ar ôl – Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hyn'[vii], roedd y Comisiynydd yn galw am raglenni sy'n cryfhau cymunedau i fod yn rhan hanfodol o'n hadferiad ac am sefydlu dysgu gydol oes fel hawl fel bod pobl o bob oed yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Ni ddylid eithrio pobl hŷn wrth i Gymru ail-godi ei heconomi ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr allweddol hanfodol yn lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein gwlad wrth i ni adfer ac ail-godi'n ôl o'r pandemig.

**Prentisiaethau**

Roedd ehangu meini prawf cymhwyster y cynlluniau Prentisiaeth a Dysgu yn y Gweithle i bobl o bob oed yn 2016 yn gam pwysig ymlaen gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel yr oedd adroddiad y Comisiynydd 'Cyflwr y Genedl'[viii] yn ei nodi'n glir, dim ond 510 o bobl hŷn a gymrodd ran yn y cynlluniau hyn yn 2019-20 – dim ond 1% o'r holl gyfranogwyr. Efallai nad yw pobl hŷn yn ystyried eu hunain fel cyfranogwyr targed y prentisiaethau, er eu disgrifiad fel prentisiaethau 'pob oed'. Dylai hysbysebu a chyfathrebu cenedlaethol a lleol ar gyfer y prentisiaethau felly adolygu yr iaith a'r delweddau a ddefnyddir a sicrhau bod pobl hŷn yn weladwy yn yr ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd.

Mae angen mwy o sgyrsiau â phobl hŷn i ddeall y rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgeisio am brentisiaethau, ac adnabod a yw prentisiaethau'n cael eu hyrwyddo i bobl hŷn, sut y mae cyflogwyr yn denu prentisiaid, a beth yn fwy a ddylai gael ei wneud i helpu gweithwyr hŷn i ail-hyfforddi pe byddent yn dymuno neu angen gwneud hynny wrth i'r galw am sgiliau newid. Dylai'r Comisiwn newydd chwarae rôl ganolog mewn casglu data a thystiolaeth ar hyn gan sicrhau bod y data'n cael ei ddadansoddi'n briodol yn ôl ac ar sail pob oed a nodweddion gwarchodedig eraill.

Fel y nodwn uchod, mae llawer o weithwyr hŷn angen neu eisiau parhau i weithio am hirach a bydd newidiadau demograffig ynghyd â'r newidiadau i Oed Pensiwn y wladwriaeth, a gwneud i ffwrdd ag oedrannau ymddeol gorfodol, yn cynyddu nifer y gweithwyr hŷn ymhellach. Mae'r cynnydd hwn i'w groesawu wrth i boblogaeth Cymru heneiddio ond mae'n bwysig i ddatblygiadau polisi gydnabod ac adlewyrchu'r newid hwn a defnyddio iaith sy'n gynhwysol o bob oed ac osgoi defnyddio iaith a allai gael ei gweld fel bod yn gwahaniaethu ar sail oed.

**Casgliad**

Er bod y Comisiynydd yn croesawu'r Mesur Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r egwyddorion cyffredinol y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael ei sefydlu o danynt, mae'r Comisiynydd hefyd yn gweld hyn fel cyfle i wneud i ffwrdd â'r rhwystrau a wynebir gan bobl hŷn i fanteisio ar gyfleoedd dysgu gydol oes, hyfforddi, ail-hyfforddi a datblygu. Gallai hefyd fod yn ffordd o fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed a sicrhau bod cyfleoedd cyfartal a chydradd i bobl hŷn yng Nghymru.

Bydd gan y Comisiwn newydd rôl ganolog i'w chwarae mewn darparu'r cyfleoedd hyn a chynnig gweledigaeth gwmpasol o sefydlu dull gwirioneddol gydol oes o ddysgu, a thrwy fanteisio ar arferion da eraill o gwmpas y byd, gallai hefyd wella'r cyfleoedd i bobl o bob oed yng Nghymru gael dysgu a hyfforddi ac arwain drwy esiampl ym maes addysg drydyddol. Mae'n greiddiol bwysig bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a'i defnyddio i yrru'r agenda addysg oedolion ymlaen yng Nghymru a rhaid i addysg oedolion hefyd ystyried y synergedd â phroblemau ehangach fel mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac adeiladau hygyrch.

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru gan graffu a dylanwadu ar ystod eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n rhoi cymorth a chefnogaeth uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achos gan weithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gweithredu arnynt. Mae rôl y Comisiynydd wedi'i ategu gan gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w helpu i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif ac yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i warchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, cael gwared ar wahaniaethu ar sail oed, rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn a chynorthwyo pawb i heneiddio'n dda.

**Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn.**

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Twitter: @talkolderpeople

---

[i] Llywodraeth Cymru (2021) Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwledydd y DU https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-age-ukcountry
[ii] Edwards, R. T et al. (2018) Byw'n dda yn hirach: Y ddadl economaidd dros fuddsoddi yn iechyd a llesiant pobl hŷn yng Nghymru. Ar gael yn: Byw'n dda yn hirach: Y ddadl economaidd dros fuddsoddi yn iechyd a llesiant pobl hŷn yng Nghymru
[iii] Llywodraeth Cymru. (2020). Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchodedig. Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/1/3/1610565982/coronafeirws-a-chyflogaeth-dadansoddiad-ar-nodweddion-gwarchodedig.pdf
[iv] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020) Mesur Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Drafft). Ar gael yn https://bit.ly/3I60i2M
[v] Athrofa Astudiaethau Cyllidol (2020) Ar gael yn https://bit.ly/31GVLDd
[vi] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2018) Dysgu Oedolion yng Nghymru: Ar gael yn: https://bit.ly/3pfpMB8
[vii] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2020). Gadael neb ar ôl: Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn. Ar gael yn: https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Gadael_Neb_ar_%c3%94l_-_Camau_Gweithredu_ar_gyfer_adferiad_o_blaid_pobl_h%c5%b7n.sflb.ashx
[viii] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021) Cyflwr y Genedl 2021 Cyflwr y Genedl 2021